

Clecs Casnewydd



Rhifyn rhif 9
Tymor y
Gwanwyn 2016

Parti Pasg



Cynhaliwyd Parti Pasg llwyddiannus iawn ar nos Lun cyntaf nôl ar ôl y gwyliau. Cafodd y plant llawer o hwyl wrth addurno wyau pasg, bisgedi a chacennau. Roedd yn amlwg bod y plant a'u rhieni wedi gweithio'n galed iawn i wneud bonedau mor lliwgar. Diolch am eich holl waith caled!

Chwedlau Traddodiadol

Meithrin

Y tymor hyn rydyn ni wedi bod yn dysgu am Chwedlau Traddodiadol trwy dull Pie Corbett. Roedden ni wrth ein boddau yn dysgu am Hansel a Gretel, Yr Hugan Fach Goch a'r Bachgen Bach Toes. Dechreuon ni't tymor trwy gwneud tŷ y Bachgen Bach Toes ar gyfer ein Cornel Darllen. Gwnaethon ni map stori, a chawson ni lawer o hwyl wrth ddylunio a chreu Bachgyn Bach Toes. Roedden ni gyd yn dwli ar ein hardal Chwarae Rôl, roedd actio'r storïau yn gymaint o hwyl!



Eirth egniol!

Derbyn

Am dymor prysur! Cafodd y derbyn llawer o hwyl yn dysgu am Elen Benfelen a'r tri arth ac yna mynd am wybdaeth gyffroes i hela arth yn y goedwig! Fe wnaethon ni bosteri er mwyn dod o hyd i Elen Benfelen, cymharu meintiau eirth, adeiladu cadair newydd i Babi Arth a darganfod llawer o ffeithiau am eirth.

Wrth i ni hela arth aethom drwy gwair hir, nofio yn yr afon, sathru ar fwd, trwy storm eira oer, ac i mewn i ogof dywyll....."Aaaaa arth!"



Yr ardal leol

Blwyddyn 1

Sawl bont sydd yng Nghasnewydd? Ble mae'r Bont Trawsgludo? Beth yw enw'r ganolfan siopa newydd? Mae disgyblion blwyddyn 1 yn gwybod yr atebion.

Cafon ni lawer o hwyl yn dysgu am ein hardal leol; yr ysgol, Casnewydd a Chymru. Dysgon ni sut i ddarllen cyfesurynnau ar fap, sut i greu allwedd a mapio'r dosbarth a sut i ddylunio map ein hun o'r ysgol i'r tŷ gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau celf. Hefyd, aethon ni am dro i'r RSPCA gan gofnodi pa nodweddion oedd i'w weld ar ein taith.

Yn ogystal â hyn, dysgon ni ffeithiau diddorol am yr ysgol heddiw a slawer dydd a disgrifion ni nodweddion Casnewydd megis y Bont Trawsgludo a'r Don.



Antur Anhygoel

Blwyddyn 2



Cafodd pob un o blant 2a a 2b sioc syfrdanol i glywed bod rhywbeth wedi digwydd i'r ardal ganol ar ddechrau'r tymor diwethaf!!! Tybed beth oedd wedi digwydd?

Yr unig beth adawodd yr ymwelydd oedd olion traed sgleiniog, tost wedi llosgi, wyau wedi berwi ac iogwrt dros y lle i gyd.

Cafodd ditectifs blwyddyn 2 eu galw i'r olygfa. Tybed os oedd coblyn bach gwyrdd wedi dod i ddwyn arian o'r ysgol? Tybed os mai crocodeil wnaeth gadael ei olion traed wrth stompio drwy'r ardal ganol?

Ar ôl casglu'r holl dystiolaeth ysgrifennodd y plant erthyglau papur newydd i esbonio beth oedd wedi digwydd.



Rhufeiniaid Rhagorol!

Blwyddyn 3

Faint ydych chi'n gwybod am Y Rhufeiniaid?

Ym mlwyddyn 3 rydyn ni wedi bod yn dysgu llawer amdanynt. Cawson ni ddiwrnod Rufeinig yn yr ysgol ac roedd pawb wedi gwisgo i fyny, wedi cael siawns i arddio a choginio bara Rufeinig efo Mr Marshall. Am hwyl a sbri! Hefyd aethon ni ar drip i Gaerllion i ddysgu ac i weld mwy. Dysgon ni lawer o ffeithiau newydd am y Rhufeiniaid er enghraifft ble roeddwn nhw'n byw, ble aethon nhw i'r ysgol, beth roeddwn nhw'n bwyta a beth wnaethon nhw adeiladu. Hefyd gwnaethon ni ein gwasanaeth dosbarth ar y Rhufeiniad. Dyma rhai o 3A a 3B wedi gwisgo fel y Rhufeiniaid.



Bore o Bonito

Blwyddyn 6

Cynhaliwyd bore o bonito yn neuadd yr ysgol i ddisgyblion Bl 6 Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Ifor Hael ac Ysgol y Ffîn a fydd yn ddisgyblion cyntaf Ysgol Gwent Iscoed ym mis. Dyma'r tro cyntaf i ni gwrdd a'n gilydd a chwrdd â'r pennaeth newydd, Ms Rhian Dafydd. Cawson fore llawn hwyl o ddaawnsio gwerin a chymdeithasu ac rydyn ni'n edrych ymlaen i gwrdd unwaith eto yn nhymor yr haf ar gyfer gweithgareddau gemau awyr agored ar gae'r ysgol.



Stiwardiaid Seimllyd

Blwyddyn 4

Dysgon ni am gyfnod hanes ych-a-fi! - Y Stiwardiaid. Edrychon ni ar Bla Mawr Llundain a chreu bagiau perlysiâu i gadw'r pla i ffwrdd. Dysgon ni am fywyd Tirion y morwyn yn Llancaiach Fawr. Darllenon ni am Barti Ddu - Bartholomew Roberts - y môr-leidr mwyaf llwyddiannus erioed ac fe ddaeth o Gymru! Darllenon ni am Syr Harri Morgan hefyd. Roedd William Shakespeare yn bwnc ddiddorol - astudion ni y gwrachod o Macbeth ac fe gawson ni'r cyfle i fod yn wrach 'Double Double Toil and Trouble'!. Roedd Tân Mawr Llundain yn erchyll!



O dan Ddaear

Blwyddyn 5

Yn ystod y tymor rydyn ni wedi bod yn dysgu am fywydau anodd plant yn ystod y 19eg Ganrif. Fe wnaethon ni ymweld ag amgueddfa Big Pit ym Mlaenafon i ddarganfod pa fath o brofiad oedd mynd o dan ddaear i ni ein hunain.



Dysgon ni yr arferai plant pedwar oed weithio am ddeuddeg awr y dydd heb olau na chwmni. Roedden nhw'n agor a chau drysau y pwll i sicrhau fod digon o aer yn llifo. Dysgon ni hefyd bod y nwy 'methane' yn achosi llawer o ffrwydradau.

Oeddech chi yn gwybod fod plant yn y 19eg ganrif yn gorfod cael eu dysgu trwy gyfrwng y Saesneg er eu bod yn deall Cymraeg y unig? Os roedden nhw yn siarad Cymraeg roedd rhaid iddyn nhw wisgo'r 'Welsh Not'. Fe wnaethon ni ysgrifennu araith i ddiolch i OM Edwards am frwydro dros yr iaith Gymraeg a sicrhau fod y Welsh Not ddim yn cael ei ddefnyddio yn ysgolion Cymru.

Côr yn Canu yn y Celtic Manor

Wrth ddod i'r ysgol ar fore Ddydd Llun arferol, agorais fy e-bost a gweld bod gwahoddiad wedi ein cyrraedd gan Waitrose. Gofyn oedd os allai'r côr fynd i ddiddanu rheolwyr o dros Brydain gyfan yng Ngwesty'r Celtic Manor ar Fore Dydd Gŵyl Dewi. Wel, nid oedd angen ystyried o gwbl! Dyma gyfle ardderchog i blant yr ysgol, Miss Thomas, Miss Davies a minnau, i gael perfformio yn un o westai mwyaf moethus ac adnabyddus Cymru.

Daeth dros 60 o blant i'r ymarferion a gynhelir bob nos lau, a chwarae teg iddynt, roeddent yn ymroddgar dros ben, ac yn dysgu eu geiriau yn wych! Rhaid i mi ddiolch i'r criw o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd mor aeddfed, ac yn fy helpu i a'r athrawon eraill, i ddangos y ffordd i ddisgyblion newydd sbon o Flwyddyn 3 sydd wedi ymuno â ni. Roeddent yn barod am y diwrnod mawr a phedair cân yn barod gennym i ganu.

Daeth bws i'n casglu am 8.15 y.b ac roedden i gyd yn llawn bwrlwm ,yn gyffrous tu hwnt yn gwisgo gwisg Gŵyl Ddewi- roedd y diwrnod mawr wedi cyrraedd!

Daeth Bethan, trefnydd Waitrose i'n croesawi oddi ar y bws, a rhaid i mi ddweud fy mod MOR falch o'r plant wrth iddynt gerdded mor dawel a threfnus trwy gyntedd y gwesty. Fel dywedodd Ella wrtha i "Dim smic, Mrs Parry!".

Aethpwyd a ni i ystafell enfawr, gyda diodydd, grawnfwyd a ffrwythau i'r plant fwyta. Yna cefais i fy arwain i'r ystafell lle fydden yn perfformio! WAW! Roedd yr ystafell yn enfawr, a'r llwyfan yn llawn goleuadau llachar. Yn fwy na hynny roedd yna dechnegwyr sain yno jyst i ni! Roeddwn yn teimlo bach yn nerfus ond yn gyffrous iawn dros y plant.

Es yn ôl at y plant ac esbonio wrthynt fod yr ystafell yn fwy nag unrhyw lwyfan ac ystafell yr oeddwn erioed wedi bod ynddi erioed. Aethom i mewn i'r ystafell i wirio sain y côr... roedd popeth yn wych! Roedd y sain yn anhygoel ac roeddent yn dangos lluniau'r plant ar sgrin fawr y tu ôl i'r côr. Roedd popeth mor broffesiynol ac yn brofiad anhygoel!

Ac yna, roedden yn barod...Wrth i ni sefyll ar y llwyfan, roedden yn ymwybodol bod dros 500 o bobl yn mynd i ddod i mewn i'r ystafell. Ein swydd ni oedd sicrhau y byddent yn gwranddo arnon ni, ac y bydden yn eu swyno.

Roedd sain y plant yn wych, a phob un ohonynt mor broffesiynol, yn fy ngwyllo i yn hytrach nag edrych ar y bobl yn y gynulleidfa. Canodd merched Blwyddyn 6 yn anhygoel. Roedd Lola, Millie, Rhianwen a Taylor mor hyderus wrth ganu penillion Chwarae'n troi'n chwerw ac roeddwn i yn sicr yn eu gallu nhw i ddenu sylw pob un aelod o'r gynulleidfa. Yna daeth Rebecca gyda'i llais hudolus i'n swyno ac erbyn hyn gyda gweddill y côr yn canu'n beraidd, roeddwn yn gwybod fod pawb a oedd yn gwranddo yn mwynhau. Yn fwy na hynny, roedd pawb a oedd yn canu yn mwynhau yn fawr!

Dyma ran o'r e-bost a dderbyniais gan Bethan Davies, Uwch Swyddog Wasg, Waitrose

I cannot begin to thank you enough for your amazing performance and hard work for this morning. The children were absolutely brilliant and they were perfectly behaved and sang so beautifully. Everyone has been so touched by the performance and people have been coming up to me all day to say how much they enjoyed it.

What a wonderful thing you have with the choir. You must be extremely proud.

Thank you again. It was a pleasure meeting and working with you and I wish you all the best for the future.



Hwyl Fawr Mrs Brazell

Wrth i'r rhifyn yma eich cyrraedd, bydd Mrs Brazell yn mwynhau ei hymddeoliad. Hoffai bawb sydd ynghlwm a'r ysgol, ddiolch yn ddiffyant i Mrs Brazell am y blynyddoedd y bu yn gofalu amdanon yn y swyddfa. Rydyn yn dymuno blynyddoedd dedwydd o hapusrwydd iddi yn y dyfodol

Ymweliad PC Thomas

Daeth PC Thomas i ymweld â phob dosbarth yn yr ysgol yn ystod y tymor. Dyma'r tro cyntaf iddi gwrrd â phlant Meithrin. Roedden wrth eu boddau yn trio'r hetiau gwahanol arno.



Presenoldeb Gwych!

Dyma'r plant yn cael eu tystysgrifau am bresenoldeb 100% y tymor hyn. Roedd yna hefyd dystysgrifau i'r disgyblion oedd wedi gwella eu presenoldeb yn sylweddol. Da iawn i bawb!



Llongyfarchiadau Miss Leyshon

Llongyfarchiadau i Miss Leyshon ar enedigaeth Jac. Ganwyd Jac ar yr 2^{il} o Ebrill yn pwysu 6 pwys 12 owns.



Eisteddfod

Cawson ni eisteddfod ysgol gyffrous iawn blwyddyn yma gyda plant yr ysgol yn cystadlu yn eu llysoedd. Ms Rhian Dafydd Pennaeth newydd Ysgol Gwent Iscoed a wnaeth feirniadu cystadleuaeth y gadair. Lola Harmes oedd enillydd y gadair y flwyddyn hon, gyda Lowri Morgan yn 2^{il} a Rebecca O'Hara yn 3^{ydd}. Llongyfarchiadau mawr!



Diwrnod Sports Relief

Codwyd £247.75 ar gyfer elusen Sports Relief trwy wisgo fel ein harwyr Chwaraeon neu mewn dillad chwaraeon. Gwnaeth pob dosbarth 'Assault course' yn ystod y diwrnod.



Ymweliad i GE Aviation

Cofodd ein disgyblion MAT (Medrus a Thalentog) mathemateg Blwyddyn 6 gyfle gwych i ymweld â GE Aviation yn Nantgarw, Caerffili y tymor diwethaf i ddysgu mwy am awyrennau. Defnyddion nhw amrywiaeth o sgiliau mathemateg i ddarganfod prisiau rhannau o awyrennau a chreu pont ar gyfer pêl.



Cornel y Campau



Gwobrwyon Chwarae Teg

Mae llawer o fechgyn a merched wedi ennill crysau - t 'Chwarae Teg' yn ystod y flwyddyn am ddangos eu bod nhw'n chwarae'n deg yn ystod amser chwarae. Braff yw gweld plant yn cystadlu ac yn gofalu am eu gilydd ar yr un amser.



Arweinwyr Anhygoel.

Mae Blynyddoedd 3 a 4 wedi bod yn ddigon ffodus i gael arweinwyr chwaraeon hyfryd yn ddyddiol. Mae nhw'n yn darparu gemau diddorol i'r plant yn ystod yr amseroedd chwarae gyda gwên ar eu gwynebau. Diolch o galon ferched.



Newyddion Clwb Rygbi

Fe orffennodd y Tîm rygbi'r tymor gyda buddigoliaeth anhygoel yn erbyn Ysgol Gynradd High Cross. Y sgôr oedd 30 - 20. Fe wnaeth y tîm cyfan ddangos sgiliau pasio cywir, taclo grymus a rhedeg chwim.

Rydw i'n sirc byddwn ni yn cael llwyddiant tebyg dros y flwyddyn nesaf gyda'r holl dalent sydd yn yr ysgol.

Pêl-rwyd

Unwaith eto mae'r clwb pêl-rwyd wedi bod yn lwyddiant gyda plant o flynyddoed 4, 5 a 6 yn mynychu yn reolaidd. Cawson nhw y cyfle i ddatblygu eu sgiliau pasio, rhedeg a saethu bob nos Fercher. Yn ychwanegol i hyn, fe wnaeth plant Blwyddyn 6 gystadlu mewn yn frwd mewn 2 gystadleuaeth.

Da iawn ferched!

Bydd y clwb yn ail-ddechrau yn rhyngor yr hydref.





Caru Celf!

Yn ystod y tymor buodd ein plant MAT (Medrus a Thalentog) celf yn brysur yn creu darnau o gelf ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ar thema 'Perthyn'. Cafwyd canlyniadau gwych eleni gyda nifer o ddarnau a ddaeth yn gyntaf yn mynd ymlaen i'r Fflint yn ystod hanner tymor mis Mai.

Lola Harmes 1^{af}, Cailin Bartlett 1^{af}, Harrison Bannister 1^{af}, Florence Leadley 1^{af}, Benji Jones, Euan Fehners and Dewi Willicombe 1^{af}, Alfie Harmes 1^{af}, Ceirios Bebb 1^{af}, Amelia Fettis 1^{af}, Evelyn O'Hara, Ffion Hurley, Ellie James 1^{af}(gwaith grŵp), Elen Olsen 1^{af}, Lola Harmes 1^{af}, Celyn Marshall 2^{il}, Millie leadley 2^{il}, Lowri Morgan and Elin Davey 2^{il} (gwaith grŵp), Rhiannon Morgan and Tegan Jones 2^{il}(gwaith grŵp) Alexa Bullock 2^{il}, Isabella O'Hara 2^{il}, Sorrel Butler-Bright 3^{ydd}, Leah Dunn 3^{ydd}.

Diolch i'r rhieni/mamgu's a'r athrawon buodd yn helpu'r plant i gael y canlyniadau gwych hyn. Da iawn bawb a waneth cystadlu! Pob lwc i'r gwaith yn y Fflint.





urdd.org
Urdd Gobaith Cymru